At sylw ein cymuned Ysgol Bro Ogwr 07.04.25

Fel eich Cadeirydd Llywodraethwyr ers 2016, mae'n bleser a balchder mawr i mi rannu gyda chi ein hadroddiad arolygiad Estyn diweddaraf, sydd ar gael yn ddwyieithog ar wefannau'r ysgol ac ESTYN. Yn unol â'n polisi ecogyfeillgar, gellir derbyn copïau caled o'r adroddiad gan yr ysgol ar gais.

Croesawyd y tîm arolygu am dridiau ym mis Chwefror 2025 a hoffem ddiolch i bawb a gwblhaodd yr holiaduron cyn-arolygiad ac a mynychodd y cyfarfodydd arolygu, i gynorthwyo Estyn yn eu harfarniad o'n darpariaeth ysgol.

Braf oedd darllen y disgrifiad o'n hysgol fel 'cymuned groesawgar, hwyliog a gofalgar'. Mae'n fraint i gael sefyll gyda'r corff llywodraethu ochr yn ochr â'n tîm ysgol a phennaeth Mrs Jayne, y mae'r tîm arolygu yn ei disgrifio fel 'arweinydd cadarn ac angerddol' sydd â 'disgwyliadau uchel a gweledigaeth glir, gan sicrhau'r lles a'r profiad gorau posibl i ddisgyblion o fewn amgylchedd cynhwysol sy'n parchu hawliau pawb'. Mae'n wych gweld ein system dosranedig o arweinyddiaeth uwch a chanol ac ymrwymiad i ddatblygiad staff yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad, gydag 'ethos yn seiliedig ar gynnig mynediad i bawb at brofiadau dysgu ysgogol a diddorol sy'n hybu disgyblion i lwyddo hyd eithaf eu gallu' ac 'wedi sefydlu diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus'. Mae staff yn gweithio'n 'gydwybodol', gan ddefnyddio ystod o ddulliau addysgu sy'n hyrwyddo'r dysgu'n bwrpasol, gan sicrhau bod disgyblion yn mwynhau eu dysgu.

Mae llywodraethwyr yn cael eu hamlygu fel 'eiriolwyr cryf' ar gyfer yr ysgol sy'n adnabod yr ysgol yn dda, yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif ac yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol. Mae llywodraethu ysgol yn rôl wirfoddol ac rwy'n bob amser yn ddiolchgar am yr oriau a'r arbenigedd y mae ein llywodraethwyr yn dewis eu rhannu gyda ni i sicrhau'r amgylchedd gorau i gymuned ein hysgol.

Fel ysgol cyfrwng Cymraeg, mae gwaith ein Cyngor Cymreictod yn cael ei gydnabod yn ein hymrwymiad i'n hysgol a'r gymuned ehangach, gan gynnwys cynorthwyo ysgolion cyfrwng Saesneg yn lleol i ddatblygu ymhellach eu defnydd o'r Gymraeg a'n sesiynau 'Ti a Fi' poblogaidd. Mae Estyn yn nodi bod ein staff yn 'fodelau rôl ieithyddol cadarn' sy'n annog cywirdeb ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Soniwyd yn benodol yn ein hadroddiad am y pwysigrwydd a roddwn fel ysgol ar gynnig cefnogaeth gref i deuluoedd sy'n profi effeithiau tlodi neu'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod y gefnogaeth a'r cymorth 'yn sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr holl ystod o brofiadau heb eithriad ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad fod yr ysgol yn un teulu mawr, clos'. Rydym wrth ein bodd bod Estyn wedi dewis tynnu sylw at y ddarpariaeth hon ac, yn yr hinsawdd bresennol o doriadau i gyllidebau cyllid ysgolion, rydym yn falch ein bod fel tîm ysgol wedi dewis cadw ein Tîm Lles Emosiynol a Theuluol, y diolchwn iddynt am eu harbenigedd parhaus a'u gwaith caled, wedi'i ysgogi gan ein gweledigaeth cytûn.

Mae Estyn wedi rhannu dau argymhelliad gyda ni i ddatblygu ein darpariaeth ymhellach ac mae tîm yr ysgol yn datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain. Bydd Estyn yn dychwelyd o fewn y pedair blynedd nesaf – i'n safle ysgol newydd – i weld sut mae'r ysgol wedi symud ymlaen ynglŷn a'r argymhellion hyn. Yn y cyfamser, hoffem ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r arolygiad sydd wedi helpu i sicrhau bod Estyn yn gweld pa mor wych yw'r gymuned ysgol sydd gennym a'r cyfleoedd a'r amgylchedd rhagorol a gynhigiwn i'n disgyblion yn ddyddiol.

Nik Dart, Cadeirydd y Llywodraethwyr

*To our Ysgol Bro Ogwr community* *07.04.25*

*As your Chair of Governors since 2016, it gives me great pleasure and pride to share with you our latest Estyn inspection report, available bilingually on the school and ESTYN websites. In line with our eco-friendly policy, hard copies of the report can be obtained from the school on request.*

*We welcomed the inspection team for three days in February 2025 and we would like to thank everyone who completed the pre-inspection questionnaires and attended the inspection meetings, to aid Estyn in their evaluation of our school provision.*

*The description of our school as a 'welcoming, fun and caring community' left us with a spring in our step. I am privileged and proud to stand with the governing body alongside our school team and headteacher Mrs Jayne, who the inspection team describe as a 'firm and passionate leader' who has 'high expectations and a clear vision, ensuring the best possible wellbeing and experience for pupils in an inclusive environment that respects everyone's rights'. It is great to see our distributed system of senior and middle leadership and commitment to staff development reflected in the report, with 'an ethos based on providing access for all to stimulating and interesting learning experiences that encourage pupils to succeed to the best of their ability' and 'established a culture of safeguarding successfully'. Staff work 'conscientiously', using a range of teaching methods that promote learning purposefully, ensuring that pupils enjoy their learning.*

*Governors are highlighted as 'strong advocates' for the school who know the school well, hold senior leaders to account and manage school funding appropriately. School governance is a voluntary role and I am continuously grateful for the hours and expertise that our governors choose to share with us to ensure the best environment for our school community.*

*As a Welsh-medium school, the work of our Cyngor Cymreictod is recognised in our commitment to our school and the wider community, including assisting English-medium schools locally to further develop their use of Welsh and our popular 'Ti a Fi' sessions. Estyn note that our staff are 'secure language models' who encourage linguistic accuracy in Welsh and English.*

*Particular mention was given in our report to the importance we place as a school on offering the strong support to families who experience the effects of poverty or those from low-income households. The report recognises that the support we offer and provide 'ensures that everyone has access to the whole range of experiences without exception and contributes significantly to the sense that the school is one big, close-knit family'. We are thrilled that Estyn has chosen to spotlight this provision and, in the current climate of school funding budget cuts, we are proud that as a school team we have chosen to retain our Emotional and Family Wellbeing Team, who we thank for their ongoing expertise and hard work, driven by our shared vision.*

*Estyn has shared with us two recommendations to develop our provision further and the school team is developing an action plan to address these. Estyn will return within the next four years - to our new school site - to see how the school has progressed in these recommendations. In the meantime, we would like to thank everyone involved in the inspection who has helped ensure that Estyn sees what a fantastic school community we have and the excellent opportunities and environment we offer to our pupils on a daily basis.*

*Nik Dart, Chair of Governors*